WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad dilynol o'r trefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu plant – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**


Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1505A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a berfformiwyd yn unol ag adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol Cymru 2009.

Nid yw’r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, neu unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â’r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio’r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Ian Phillips a Sara-Jane Byrne dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor wedi cyflawni, neu gyflawni'n rhannol, ein hargymhellion blaenorol a'n cynigion ar gyfer gwella, ond rydym wedi nodi rhagor o gynigion ar gyfer gwella i atgyfnerthu agweddau ar drefniadau diogelu corfforaethol y Cyngor.

Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Asesiad o gynnydd o ran yr argymhellion a nodwyd yn ein hadroddiad yn 2015 6

Asesiad o gynnydd o ran yr argymhellion a nodwyd yn ein hadroddiad yn 2014 15

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Fe wnaethom gynnal yr adolygiad hwn i geisio sicrwydd bod gan y Cyngor drefniadau corfforaethol effeithiol ar waith ar gyfer diogelu. Fe wnaethom ystyried y canfyddiadau yn ein hadroddiad yn 2014 yn y trefniadau i gefnogi prosesau diogelu plant[1]. Ystyriwyd gennym hefyd gynnydd y Cyngor wrth roi ar waith yr argymhellion yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol 'Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru'(Gorffennaf 2015)[2].

2 Cynhaliwyd yr adolygiad gennym rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2019.

### Yr hyn a ganfuwyd

3 Ceisiodd ein hadolygiad ateb y cwestiwn: A yw'r Cyngor wedi gweithredu ar yr argymhellion a'r cynigion ar gyfer gwella a oedd wedi'u cynnwys yn adroddiadau lleol a chenedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol a gyhoeddwyd yn 2014 a 2015?

4 Yn gyffredinol, gwelsom: Mae'r Cyngor wedi cyflawni, neu gyflawni'n rhannol, ein hargymhellion blaenorol a'n cynigion ar gyfer gwella, ond rydym wedi nodi rhagor o gynigion ar gyfer gwella i atgyfnerthu agweddau ar drefniadau diogelu corfforaethol y Cyngor.

### Cynigion ar gyfer Gwella

Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd gennym yn dilyn yr adolygiad hwn.

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| C1 | Dylai'r Cyngor gryfhau ymwybyddiaeth o swyddogaethau'r swyddog arweiniol a'r aelod arweiniol ar gyfer diogelu trwy:<br>• gynnwys gwybodaeth am swyddogaethau'r aelod arweiniol a'r swyddog arweiniol ar gyfer diogelu ar dudalennau mewnrwyd y Cyngor; a<br>• sicrhau bod diogelu wedi'i gynnwys yng nghyfrifoldebau portffolio'r aelod arweiniol ar wefan y Cyngor |

[1] Archwilydd Cyffredinol Cymru, **Trefniadau Awdurdodau Lleol i Gefnogi Prosesau Diogelu Plant – Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr,** Hydref 2014

[2] **Archwilydd Cyffredinol Cymru, Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru**, Gorffennaf 2015

| Cynigion ar gyfer gwella |
| --- |
| C2 Dylai'r Cyngor atgyfnerthu'r Polisi Diogelu Corfforaethol yn y ffyrdd canlynol:<br>• egluro rôl a chyfrifoldebau'r aelod arweiniol ar gyfer diogelu;<br>• egluro rôl y pwyllgor craffu yn nhrefniadau diogelu'r Cyngor;<br>• egluro rôl y bwrdd diogelu corfforaethol gweithredol; a<br>• dileu hen gyfeiriadau nad ydynt yn berthnasol mwyach at hyrwyddwyr diogelu. |
| C3 Dylai'r Cyngor gryfhau ei Ganllawiau i Reolwyr Recriwtio a Dethol mewn cysylltiad â diogelu a recriwtio diogel. Er enghraifft:<br>• dylai'r adran disgrifiadau swydd gyfeirio at ddiogelu ar gyfer swyddi perthnasol;<br>• nodi y bydd hysbysebion swydd ar gyfer swyddi y mae angen gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd arnynt yn cynnwys datganiad penodol ynghylch diogelu; a<br>• dylai'r Canllawiau groesgyfeirio'r Polisi DBS a'r Polisi Diogelu Corfforaethol. |
| C4 Dylai'r Cyngor ddiweddaru ei Bolisi DBS i sicrhau ei fod yn cyfeirio at ddeddfwriaeth gyfredol. |
| C5 Dylai'r Cyngor sicrhau defnydd cyson o ddarpariaethau diogelu mewn tendrau a chontractau ar draws pob Cyfarwyddiaeth a sicrhau y caiff y darpariaethau cytundebol hyn eu monitro'n briodol. |
| C6 Dylai'r Cyngor wella'i ddull o ran hyfforddiant diogelu yn y ffyrdd canlynol:<br>• egluro pryd mae angen i hyfforddiant diogelu gorfodol gael ei adnewyddu;<br>• egluro pa mor aml y dylid cynnig hyfforddiant diogelu i aelodau; a<br>• gwella'r gyfradd gydymffurfio ar gyfer cwblhau ei hyfforddiant diogelu gorfodol |
| C7 Dylai'r Cyngor ddatblygu system ganolog ar gyfer cofnodi a monitro gwybodaeth gwirfoddolwyr, gan gynnwys unrhyw gofnodion hyfforddi a gwiriadau DBS ar gyfer gwirfoddolwyr, ac ystyried llunio canllawiau canolog ar gyfer recriwtio gwirfoddolwyr. |
| C8 Dylai'r Cyngor ystyried llunio rhagor o fesurau perfformiad (er enghraifft o ran cydymffurfio â gwiriadau DBS a hyfforddiant diogelu gorfodol) i wella'r wybodaeth am berfformiad a roddir i'r tîm craffu ac i gynorthwyo tryloywder. |
| C9 Dylai'r Cyngor ystyried rhinweddau grŵp diogelu corfforaethol gweithredol sy'n goruchwylio risgiau diogelu corfforaethol o bob rhan o'r Cyngor. |

# Asesiad o gynnydd o ran yr argymhellion a nodwyd yn ein hadroddiad yn 2015

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni, neu gyflawni'n rhannol, ein hargymhellion blaenorol a'n cynigion ar gyfer gwella, ond rydym wedi nodi rhagor o gynigion ar gyfer gwella i atgyfnerthu agweddau ar drefniadau diogelu corfforaethol y Cyngor.

Arddangosyn 2: yr argymhellion a nodwyd yn ein hadroddiad yn 2015 a'n hasesiad o gynnydd arnynt

| Argymhelliad o adroddiad 2015 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| A1 Gwella arweiniad corfforaethol a chydymffurfio â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddiogelu trwy wneud yr isod: | |
| • penodi uwch-swyddog arweiniol fydd yn atebol am ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc gyda chyfrifoldebau corfforaethol am gynllunio gwelliannau; | Wedi cyflawni:<br><br>Y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant sy'n gyfrifol am y swyddogaeth hon. |
| • penodi aelod arweiniol dros ddiogelu | Wedi cyflawni: |

| Argymhelliad o adroddiad 2015 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
| --- | --- |
| | Yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar sy'n gyfrifol am y swyddogaeth hon. |
| • dosbarthu a diweddaru yn rheolaidd wybodaeth am y penodiadau hyn i'r holl staff a rhanddeiliaid | Wedi cyflawni'n rhannol y cynigion ar gyfer gwella a nodwyd:<br><br>Mae gan y Cyngor ddulliau mewnol o rannu gwybodaeth gorfforaethol megis negeseuon e-bost a chylchlythyron 'Bridgenders'. Nododd y Cyngor fod gwybodaeth am swyddogaethau yr aelod arweiniol a'r swyddog arweiniol yn eu tro o ran diogelu wedi'i rhannu trwy'r dulliau mewnol hyn.<br>Mae swyddogaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant wedi'i nodi yn y Polisi Diogelu Corfforaethol, ond nid yw swyddogaeth yr aelod arweiniol cyfrifol ar gyfer diogelu wedi'i nodi yn y polisi hwnnw.<br>Nid yw'r wybodaeth bortffolio ar wefan y Cyngor ar gyfer yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys diogelu yn un o'i gyfrifoldebau.<br>Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi tudalennau diogelu corfforaethol ar y fewnrwyd ond nid ydynt yn nodi swyddogaethau'r aelod arweiniol a'r swyddog arweiniol yn eu tro o ran diogelu corfforaethol.<br>Mae gan y Cyngor fwrdd diogelu corfforaethol gweithredol sy'n cynnwys aelod o bob Cyfarwyddiaeth. Rydym yn deall mai swyddogaeth y Bwrdd yw helpu i sicrhau bod pawb yn y Cyngor yn ymwybodol o faterion diogelu. Fodd bynnag, rydym o'r farn y gellir egluro swyddogaeth y Bwrdd ac rydym wedi cynnwys cynnig ar gyfer gwella (C2) sy'n gysylltiedig â hyn. Mae'r Cyngor yn cydnabod ei bod yn fwy heriol rhannu gwybodaeth ag aelodau staff os nad oes ganddynt afael ar gyfrifiadur a disgwylir i reolwyr drosglwyddo gwybodaeth o'r fath i'r aelodau staff hynny. Efallai hoffai'r Cyngor ystyried cyfleoedd i wella ymwybyddiaeth o swyddogaethau diogelu allweddol ymhlith aelodau staff nad oes ganddynt afael ar gyfrifiadur. |

| Argymhelliad o adroddiad 2015 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| A2 Sicrhau bod polisi corfforaethol ar ddiogelu sy'n cynnwys holl wasanaethau'r cyngor er mwyn rhoi cyfeiriad strategol clir a llinellau atebolrwydd clir ar draws y cyngor. | Wedi cyflawni'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd:<br><br>Mae gan y Cyngor bolisi diogelu corfforaethol sydd wedi'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor ac mae'n glir ynghylch swyddogaethau a chyfrifoldebau unigolion (ac eithrio'r diffyg gwybodaeth a nodwyd eisoes am swyddogaeth yr Aelod Cabinet perthnasol).<br>Mae'r polisi'n gynhwysfawr ar y cyfan ac yn cynnwys gwybodaeth am bynciau diogelu perthnasol, megis caethwasiaeth fodern a masnachu pobl a chamfanteisio'n rhywiol ar blant.<br>Fodd bynnag, nid yw'r polisi'n sôn am swyddogaethau'r bwrdd diogelu corfforaethol gweithredol a'r pwyllgor craffu yn nhrefniadau diogelu y Cyngor. Mae'r polisi'n cyfeirio hefyd at hyrwyddwyr diogelu ond nid yw'r swyddogaethau hynny yn bodoli mwyach. |
| A3 Cryfhau recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn ddiogel trwy: | |
| • sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a chydymffurfio â pholisïau recriwtio diogel yn cynnwys yr holl wasanaethau sy'n dod i gysylltiad â phlant; | Wedi cyflawni ond nodwyd cynigion ar gyfer gwella:<br><br>Mae gan y Cyngor bolisi Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sy'n berthnasol i'r holl staff a gwirfoddolwyr. Fodd bynnag, diweddarwyd y polisi ddiwethaf ym mis Mawrth 2014 ac mae angen ei ddiweddaru gan ei fod yn cynnwys cyfeiriad at ddeddfwriaeth sy'n amherthnasol erbyn hyn (Deddf Diogelu Data 1998).<br><br>Mae'r Cyngor yn monitro cydymffurfiaeth â gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. |

| Argymhelliad o adroddiad 2015 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| | Mae gan y Cyngor Brotocol Recriwtio a Dewis a Chanllawiau Recriwtio a Dewis i Reolwyr. Fodd bynnag, gellid atgyfnerthu'r canllawiau hynny fel y nodir yn C3 uchod. Caiff gwirfoddolwyr eu recriwtio gan Gyfarwyddiaethau ac nid oes gan y Cyngor ganllawiau canolog ar gyfer recriwtio gwirfoddolwyr, a dylid ystyried llunio canllawiau o'r fath er mwyn darparu dull cyson a chynyddu goruchwyliaeth gorfforaethol.<br><br>Er nad oes angen gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar wirfoddolwyr fel y cyfryw, cynigiodd y Cyngor gyfle i aelodau gael gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Dywedodd y swyddogion wrthym fod y mwyafrif o'r aelodau wedi manteisio ar y cyfle hwn. |
| • creu system cydymffurfio gorfforaethol integredig i gofnodi a monitro lefelau cydymffurfio ar wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; a | Wedi cyflawni'n rhannol ond nodwyd cynnig ar gyfer gwella:<br><br>Mae gan y Gyngor system, Trent, sy'n cofnodi gwybodaeth Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i'r holl staff y mae angen gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd arnynt. Fodd bynnag, nid oes gan y Cyngor gofnod cydymffurfio canolog o wybodaeth am wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer gwirfoddolwyr. |
| • mynnu cael arferion recriwtio diogel ymysg partneriaid yn y trydydd sector ac i wirfoddolwyr sydd yn darparu gwasanaethau a gomisiynir a/neu a ddefnyddir gan y cyngor gyda sylfaen o gontract neu gytundeb lefel gwasanaeth. | Wedi cyflawni ond nodwyd cynigion ar gyfer gwella:<br><br>Mae'r Cyngor wedi darparu enghreifftiau cytundebol i ni sy'n eglur ynghylch yr angen i gynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.<br><br>Rhoddodd y Cyngor enghraifft i ni hefyd o dendr yn rhan o'n hadolygiad (ar gyfer Darpariaeth Gwasanaethau Cludo ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd). Cafwyd rhai gwendidau yn y ddogfen dendr hon o ran diogelu. Er enghraifft, nid oes cyfeiriad penodol at ddiogelu yn y |

| Argymhelliad o adroddiad 2015 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| | ddogfen hon er ei bod yn eglur ynghylch gofynion gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae'r ddogfen yn cyfeirio hefyd at bersonau y mae'r cyflenwr yn eu defnyddio i ddarparu'r 'hyfforddiant gofynnol' ond nid yw'n pennu a yw'n cyfeirio at hyfforddiant diogelu ai peidio. Nid yw'r ddogfen yn cyfeirio at angen y darparwr i feddu ar ei bolisi diogelu ei hun sy'n gyson â Pholisi Diogelu Corfforaethol y Cyngor nac atynt yn meddu ar eu polisi eu hunain. Nid yw'r ddogfen yn sôn am yrwyr neu hebryngwyr yn codi pryderon diogelu (er bod dyletswydd i ddiogelu disgyblion rhag cam-drin a bwlio).<br><br>Canfuwyd mater tebyg gan Archwilwyr Mewnol pan gynhaliwyd adolygiad diogelu yn 2018-19. Mae adolygiad yr Archwilwyr Mewnol yn nodi bod yr Archwilydd wedi cael copi hefyd o'r tendr ar gyfer cludiant ysgol (tacsis a bysiau mini). Er bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a hyfforddiant digonol wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon, nid oedd cyfeiriad penodol at ddiogelu. Mae'r adolygiad yn datgan hefyd bod tuedd i ddiogelu gael ei gynnwys mewn contractau fel Gofal Cymdeithasol, Cludiant Ysgol, gofalwyr sy'n byw gyda'r cleient ac ati. Argymhellodd yr adolygiad y dylid ystyried cynnwys Diogelu yn yr holl ddogfennau. Mae angen i'r Cyngor sicrhau defnydd cyson o ddarpariaethau diogelu, pan fo'n briodol, mewn contractau ym mhob Cyfarwyddiaeth.<br><br>Roedd y bobl y gwnaethom gyfweld â nhw yn glir bod y Cyngor yn sicrhau bod darpariaethau diogelu mewn contractau yn ymwneud â Gofal Cymdeithasol wedi'u bodloni. Fodd bynnag, ni chafwyd sicrwydd tebyg ar gyfer darpariaethau diogelu mewn contractau Cyfarwyddiaethau eraill. Er bod angen i brosesau monitro contractau fod yn gymesur, mae lle i ddefnyddio dull mwy cyson o ymdrin â'r mater hwn ar draws y Cyngor cyfan. |

| Argymhelliad o adroddiad 2015 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| | Efallai fod swyddogaeth i'r bwrdd diogelu corfforaethol gweithredol sicrhau a monitro bod dull cyson o fodloni darpariaethau yn nogfennau tendr a chontractau ar draws yr holl Gyfarwyddiaethau. |
| A4 Sicrhau bod y staff, aelodau a phartneriaid perthnasol yn deall eu cyfrifoldebau diogelu trwy: | |
| • sicrhau bod hyfforddiant diogelu yn orfodol a bod yr ymdriniaeth yn ymestyn at holl feysydd gwasanaeth perthnasol y cyngor, a'i fod yn cael ei gynnwys fel elfen safonol ar raglenni cynefino; | Wedi cyflawni ond nodwyd cynigion ar gyfer gwella:<br><br>Mae hyfforddiant diogelu yn orfodol i'r holl staff ac mae ar gael trwy gyfleuster e-ddysgu neu fel llyfr gwaith papur. Mae'n rhan o'r rhaglen gynefino. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi pennu cyfnod (er enghraifft dwy neu dair blynedd) pan ddylid cael hyfforddiant gloywi ar gyfer diogelu. Ar ddiwedd mis Gorffennaf 2019, y gyfradd cwblhau'r hyfforddiant diogelu gorfodol oedd 65.3% o'r staff. Er bod gan y Cyngor amryw o ddulliau ar waith i sicrhau y cwblheir hyfforddiant gorfodol, megis llunio adroddiadau cydymffurfio chwarterol i reolwyr a monitro'r cwblhau trwy'r broses werthuso, mae'n amlwg bod angen gwneud mwy i sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r hyfforddiant hwn.<br><br>Mae'n ofyniad gan Lywodraeth Cymru bod hyfforddiant Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn orfodol i'r holl staff. Y ffigur diweddaraf yw bod 83% o staff wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn.<br><br>Cynigiwyd hyfforddiant diogelu i'r holl aelodau ym mis Medi 2017 ond dywedodd y swyddogion y gwnaethom siarad â nhw na wnaeth lawer o bobl fanteisio ar y cynnig, ond ni roddwyd union ffigurau. Dylai'r Cyngor ystyried ffyrdd o wella nifer y bobl sy'n cwblhau hyfforddiant diogelu er nad yw'n |

| Argymhelliad o adroddiad 2015 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| | hyfforddiant gorfodol. Dylai'r Cyngor benderfynu hefyd pa mor aml y dylai gynnig hyfforddiant diogelu i'r aelodau, boed ar ffurf cwrs gloywi i'r staff sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant eisoes, neu wella nifer yr aelodau sy'n cwblhau'r hyfforddiant fel arall.<br><br>Mae'r Cyngor wedi mynd ati'n rhagweithiol i gynnig hyfforddiant diogelu i yrwyr tacsi ac mae'n bwriadu cynnal sesiynau eraill. Mae'r Cyngor hefyd wedi darparu gwybodaeth diogelu i'r rhai sy'n gweithio yn yr economi gyda'r nos.<br><br>Mae'r Cyngor yn darparu hyfforddiant diogelu nad yw'n orfodol i staff, er enghraifft ar bynciau megis caethwasiaeth fodern a llinellau cyffuriau.<br><br>Mae Tîm Grwpiau Agored i Niwed y Cyngor yn darparu hyfforddiant diogelu mewn ysgolion yn ogystal â'r hyfforddiant diogelu gorfodol. |
| • creu system ledled y gorfforaeth i adnabod, olrhain a monitro cydymffurfiaeth â'r angen i fod yn bresennol mewn hyfforddiant diogelu yn holl adrannau'r cyngor, aelodau etholedig, ysgolion, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr; a | Wedi cyflawni'n rhannol ond nodwyd cynnig ar gyfer gwella:<br><br>Mae polisi diogelu corfforaethol y Cyngor yn datgan bod yr holl reolwyr llinell yn gyfrifol am sicrhau bod eu staff, gwirfoddolwyr ac unigolion ar brofiad gwaith yn cwblhau'r hyfforddiant diogelu priodol. Mae gan y Cyngor system, Trent, sy'n cofnodi'r wybodaeth am gydymffurfio â hyfforddiant diogelu gorfodol i'r holl staff, gan gynnwys staff ac aelodau ysgolion. Mae'r adran Adnoddau Dynol yn rheoli'r broses profiad gwaith a disgwylir i bobl ar brofiad gwaith gwblhau'r hyfforddiant diogelu gorfodol trwy'r cyfleuster e-ddysgu. Fodd bynnag, nid oes gan y Cyngor gofnod canolog o gydymffurfiaeth gwirfoddolwyr o ran hyfforddiant diogelu. |

| Argymhelliad o adroddiad 2015 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| | Dylai'r Cyngor ystyried defnyddio'r system Trent yn fwy cyson i gofnodi gwybodaeth am hyfforddiant diogelu (y tu hwnt i'r hyfforddiant gorfodol) y mae Cyfarwyddiaethau wedi'i gynnal.<br><br>Nid yw hyfforddiant i lywodraethwyr yn orfodol ar lefel genedlaethol, ond mae'r Cyngor yn annog llywodraethwyr i gwblhau hyfforddiant diogelu ac yn darparu amryw o gyfleoedd i wneud hynny. Mae'r tîm Cefnogi Llywodraethwyr yn cadw cofnodion o holl hyfforddiant llywodraethwyr. |
| • mynnu bod staff perthnasol mewn sefydliadau sy'n bartneriaid a gomisiynir i weithio dros y cyngor wrth gyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn gorfod ymgymryd â hyfforddiant diogelu. | Wedi cyflawni'n rhannol ond nodwyd cynnig ar gyfer gwella:<br><br>Mae'r Cyngor wedi rhoi enghreifftiau cyd-destunol sy'n nodi'r gofynion o ran hyfforddiant diogelu, er bod y naratif a nodir uchod yn y trydydd pwynt bwled yn A3 yn berthnasol i'r argymhelliad hwn. |
| A6[3] Gwella atebolrwydd am ddiogelu corfforaethol trwy adrodd yn rheolaidd ar faterion diogelu a sicrwydd wrth bwyllgor(au) craffu yn erbyn set gytbwys o wybodaeth perfformiad ledled y cyngor ynglŷn â'r canlynol:<br>• meincnodi a chymharu ag eraill;<br>• casgliadau archwiliadau/adolygiadau arolygu mewnol ac allanol;<br>• data perfformiad seiliedig ar wasanaethau; | Wedi cyflawni'n rhannol ond nodwyd cynnig ar gyfer gwella:<br><br>Nid oes craffu ar adroddiad diogelu blynyddol. Mae'n canolbwyntio'n bennaf ar adrodd ar faterion diogelu o ran gwasanaethau i Blant ac Oedolion er ei fod yn ymdrin hefyd â materion diogelu corfforaethol ehangach, megis adrodd am gydymffurfio â gofynion hyfforddiant gorfodol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.  Fodd bynnag, mae lle i ddatblygu'r adroddiad blynyddol i gynnwys gwybodaeth arall am berfformiad y Cyngor cyfan, megis gwybodaeth am hyfforddiant diogelu gorfodol neu wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'r canfyddiadau allweddol o unrhyw adroddiadau archwilio mewnol ac allanol perthnasol sy'n berthnasol i ddiogelu corfforaethol. |

[3] Llywodraeth Cymru oedd yn gyfrifol am ymateb i argymhelliad 5 felly nid yw wedi'i gynnwys uchod

| Argymhelliad o adroddiad 2015 | | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|---|
| | • data personél allweddol megis hyfforddiant diogelu, a gwiriadau recriwtio Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; a<br>• pherfformiad contractwyr a gwasanaethau a gomisiynwyd o ran cydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu'r cyngor | |
| A7 | Sefydlu rhaglen dreigl o adolygiadau archwilio mewnol i gynnal profion ar systemau a chynnal adolygiadau cydymffurfio ar arferion diogelu'r cyngor. | Wedi cyflawni:<br><br>Lluniodd yr Archwilwyr Mewnol adroddiad am ddiogelu corfforaethol yn 2016-17. Cynhaliwyd Adolygiad Diogelu ganddynt hefyd yn 2018-19 ac fe wnaethant lunio adroddiad ar Recriwtio Mwy Diogel yn 2018-19.<br><br>Mae Diogelu yn ymddangos yng nghynllun archwilio yr Archwilwyr Mewnol ar gyfer 2019-20 a bydd yr adolygiad yn cynnwys asesiad blynyddol o fodel gweithredu cyffredinol y Cyngor o ran diogelu, gan gynnwys adolygu digonolrwydd y sicrwydd a gafwyd gan y Cyngor ynghylch trefniadau diogelu sydd ar waith ar gyfer oedolion a phlant sy'n agored i niwed. |
| A8 | Sicrhau yr ystyrir y risgiau sy'n gysylltiedig â diogelu ar lefel gorfforaethol a gwasanaeth wrth ddatblygu a chytuno ar gynlluniau rheoli risg ar draws y cyngor. | Wedi cyflawni'n rhannol ond nodwyd cynnig ar gyfer gwella:<br><br>Mae diogelu yn risg ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.<br><br>Mae diogelu yn risg ar lefel Cyfarwyddiaeth yng Nghynllun Busnes 2019-20 y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.<br>Nid yw diogelu yn risg ar lefel Cyfarwyddiaeth yng Nghynllun Busnes 2019-20 unrhyw Gyfarwyddiaeth arall. Mae hyn yn cynnwys Cynllun Busnes Addysg a Chymorth i Deuluoedd, er y dywedwyd wrthym fod Cynlluniau |

| Argymhelliad o adroddiad 2015 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| | Grŵp a Chynlluniau Timau sy'n ategu Cynllun Busnes y Gyfarwyddiaeth. Cyfeiriwyd at y tîm Grwpiau Agored i Niwed fel enghraifft o dîm a fyddai'n cynnwys pwyslais mawr ar ddiogelu. Ym mis Mawrth 2019, adroddodd Estyn fod 'trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer diogelu mewn darpariaeth addysg yn briodol ac nid ydynt yn codi unrhyw achos i bryderu.'<br>Er nad yw bob amser yn gwbl angenrheidiol nac yn gymesur i ddiogelu ymddangos yng Nghynllun Busnes pob Cyfarwyddiaeth, dylai'r Cyngor ystyried defnyddio dull y bwrdd diogelu corfforaethol gweithredol i sicrhau goruchwyliaeth gyson ac ystyriaeth gadarn o risgiau diogelu corfforaethol ar draws pob Cyfarwyddiaeth a gwasanaeth. |

# Asesiad o gynnydd ar y cynigion ar gyfer gwella yn ein hadroddiad lleol o 2014

Arddangosyn 2: cynigion ar gyfer gwella yn ein hadroddiad lleol o 2014 a'n hasesiad o gynnydd arnynt

| Cynigion ar gyfer gwella yn ein hadroddiad lleol o 2014 a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Hydref 2014. | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| C1 Datblygu Polisi Diogelu Corfforaethol sy'n pennu swyddogaethau, cyfrifoldebau a gweithdrefnau diogelu yn glir. | Wedi cyflawni'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd:<br><br>Gweler y naratif ar gyfer argymhelliad 2 ar dudalen 8 uchod. |

| **Cynigion ar gyfer gwella yn ein hadroddiad lleol o 2014 a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Hydref 2014.** | **Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor** |
|---|---|
| C2 Cwblhau adolygiad y Bwrdd Gwella Strategol ar gyfer Gofal Cymdeithasol o wybodaeth am berfformiad a llunio mesurau sy'n darparu sicrwydd digonol bod systemau yn gweithio'n effeithiol. | Wedi cyflawni:<br><br>Dylid nodi bod cyfeirio at y Bwrdd Gwella Strategol ar gyfer Gofal Cymdeithasol yn amherthnasol erbyn hyn gan nad yw'r Bwrdd yn bodoli mwyach. Fodd bynnag, mae nifer o ddulliau gwahanol ar waith ar hyn o bryd i ystyried gwybodaeth am berfformiad ym maes Gofal Cymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnwys y broses Asesu Perfformiad Corfforaethol ac amryw o grwpiau cyfarfod amrywiol y Rheolwyr ym maes Gofal Cymdeithasol. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y dulliau hyn a'r mesurau a gaiff eu hystyried trwyddynt yn ymwneud â diogelu yn briodol. |
| C3 Sicrhau bod y rhaglen gynefino gorfforaethol i'r holl aelodau staff newydd yn cynnwys hyfforddiant diogelu a materion amddiffyn plant a pholisi diogelu corfforaethol y Cyngor. | Wedi cyflawni:<br><br>Mae'r hyfforddiant e-ddysgu gorfodol ar ddiogelu yn rhan o fframwaith cynefino y Cyngor ac mae'r hyfforddiant ar gael ar ffurf llyfr gwaith papur hefyd. Mae dolen i bolisi diogelu corfforaethol y Cyngor yn rhan o'r rhaglen e-ddysgu ac mae nodyn ar y llyfr gwaith papur. Mae rheolwyr yn gyfrifol am sicrhau bod copi papur o'r polisi ar gael pe byddai ei angen. |
| C4 Nodi a chytuno ar raglen waith archwiio mewnol briodol ar gyfer diogelu. | Wedi cyflawni:<br><br>Gweler y naratif ar gyfer argymhelliad 7 ar dudalen 14 uchod. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru